Capten Idole.

Mae yna bobol, glywoch chi son
Byw uwch y cymylau, bywyd na wyr poen
Ar hen blaned ddiffrwyth fu unwaith iau a byw
Roedd gorfod danfon cennad a'r neges drwy'r gwagle
At unrhyw un a glyw.

Capten Idole yn gadarn wrth y lliw
A'i long yn hwylio'r cosmos fel galion aur heb griw
Pan welodd Terra Nova daeth gwen yw wyneb mwyn
A lleisiau clir ei bobol fel adlais yn canu
Yw'i annog ef a'u swyn.

Heda, paid troi
Cofia dy waith a dy ddiben
Hed fry, o'm tir
Chwilia am wladfa i'r hen fyd.

Fe laniodd ei loeren yn ddistaw ar y rhos
Trwy ffenest fach ei gabin, fe welodd gefn y nos
Yn cilio dros y bryniau, lle saif y Capten nawr
A chofiodd am ei gartref wrth ddanfon y neges
Yw ddilyn ef ar fris.

Hedwch, dowch wir
Mae yma fyd gwerth ei weled
Gwlad fach, tir iach
Cartref rhwng mor a mynydd.

c Geraint Griffiths.